**Gwobrau Prentisiaethau Cymru 2019**
**Lleoliad: Canolfan Gynadledda Ryngwladol Cymru, Casnewydd, NP18 1HQ**

**Noddi'r Gwobrau – Cwestiynau Cyffredin**

Isod, gwelir atebion i gwestiynau cyffredin am noddi Gwobrau Prentisiaethau Cymru. Os oes gennych gwestiwn nad yw'n cael ei ateb isod, gallwch ebostio karen.smith@ntfw.org neu ffonio 07425 621709.

**Faint o bobl y mae disgwyl iddynt ddod i'r noson wobrwyo?**
Rydym yn disgwyl y bydd 400 o bobl neu fwy yn dod i'r noson.

**Sut mae dod o hyd i'r ganolfan?**
Mae Canolfan Gynadledda Ryngwladol Cymru (ICC Wales) yng Nghasnewydd. Dilynwch y ddolen i gael gwybod rhagor: https://www.iccwales.com/cy/getting-here/

**Ymhle y cynhelir y noson wobrwyo?**
Woodland Suite

**A oes cysylltiad wi-fi ar gael yn y Ganolfan?**
Mae cysylltiad wi-fi ar gael yno. Bydd angen i chi gofrestru trwy nodi'ch cyfeiriad ebost pan gyrhaeddwch. Rydym yn disgwyl y bydd llawer o weithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol yn ystod y noson, yn ogystal â chynt ac wedyn, felly cofiwch gynnwys yr hashnod #AAC2019

**Cyfleusterau parcio ar gyfer y ganolfan**
Mae llawer o lefydd parcio ar gyfer gwesteion ac ymwelwyr. Codir tâl yn rhai o'r meysydd parcio ond nid ym mhob un. Cewch ragor o wybodaeth ar y wefan.
https://www.celtic-manor.com/location-directions?accordion=05577bb8-9a12-41dc-b412-b118dac3780e

**Lle gaf i aros tra byddaf yn yr achlysur?**
Os hoffech aros ar noson y seremoni wobrwyo neu gynt neu wedyn, gallwch gadw ystafelloedd trwy fynd i https://www.celtic-manor.com/hotels-lodges#hotelbooknow a defnyddio'r *Block Code* NTFW241019 neu trwy ffonio gwesty'r Celtic Manor yn uniongyrchol ar 01633 413000 gan nodi'r cyfeirnod **NTFW241019**. Rydym wedi trefnu'r prisiau isod ar gyfer gwesteion:

| **Gwely a Brecwast**<br>**Cod Archebu: NTFW241019** | **Cyfradd** | **TAW** | **Cyfanswm**<br>**Cost** |
|---|---|---|---|
| **Gwesty Hamdden y Celtic Manor** | | | |
| Un mewn ystafell | 120.83 | 24.17 | £145.00 |
| Dau mewn ystafell | 141.67 | 28.33 | £170.00 |
| **Manor House** | | | |
| Un mewn ystafell | 83.33 | 16.67 | £100.00 |
| Dau mewn ystafell | 104.17 | 20.83 | £125.00 |
| **Coldra Court** | | | |
| Un mewn ystafell | 79.17 | 15.83 | £95.00 |
| Dau mewn ystafell | 100.00 | 20.00 | £120.00 |

Neu gallwch fynd i wefan Croeso Cymru i chwilio am westy
http://www.visitwales.com/accommodation-search

**Dangos baneri yn y noson wobrwyo**
Os oes gennych becyn noddi sy'n cynnwys arddangos baner godi eich sefydliad (Prif Noddwr, Noddwr Llawlyfr y Gwobrau, Noddwr Cinio'r Gwobrau, Noddwr Bwydlen y Gwobrau a Noddwyr y Dosbarthiadau Unigol), dewch â'ch baner i'r Ganolfan Gynadledda a bydd aelod o'r staff yn dangos i chi lle cewch ei gosod. Rhaid gosod yr holl faneri erbyn 5.30pm fan hwyraf ar noson y gwobrau.

Cyfrifoldeb y gwahanol sefydliadau yw'r baneri ac mae'n rhaid mynd â nhw o'r ganolfan ar ôl y seremoni wobrwyo. Ni chymerir cyfrifoldeb am unrhyw faneri a adewir yn y ganolfan ar ôl y seremoni wobrwyo.

**Sut mae prynu tocynnau ychwanegol ar gyfer y noson?**
Ar ôl i'ch nawdd gael ei gadarnhau, byddwch yn trafod yn uniongyrchol â'r Tîm Nawdd os bydd gennych ryw gwestiwn neu os dymunwch brynu tocynnau ychwanegol.

**Sut mae cofrestru i fod yn noddwr?**
Cysylltwch â Karen Smith gan nodi'r pecyn nawdd y mae gennych ddiddordeb ynddo.
Ebost: Karen.smith@ntfw.org
Ffôn symudol: 07425 621709